Glan Llyn

Aeth blwyddyn chwech i Lan-llyn ar Fai 5ed i'r 8fed. Roeddem ni wedi cael hwyl; wnaethom ni nofio, pêl-droed, bowlio deg, cerdded, dawnsio llinell, canwio, sglefrolio, cyfeiriannu, adeiladu rafft, wal ddringo, rhwyfo, taith llyn. Cawsom ni hefyd ddau ddisgo ac aethom ni i'r Bala ar y dydd olaf. Roeddem ni wedi gwneud ffrindiau newydd o ysgolion eraill. Cawsom ni amser da. Gobeithio y bydd blwyddyn pump yn ei hoffi e y flwyddyn nesaf. Ein hoff weithgaredd oedd canwio. Roedd yna un ar ddeg o ferched ac roedd Megan wedi cwympo mas o'r canw a merch arall o Blas-crug. Roedd rhaid i'r gofalwr ddod mas i helpu ni. Cawsom hwyl a sbri.

Kimberley Holmes
Lydia Shaw
Hannah Wells
Sarah Fitzpatrick

Mis prysur

Ar ddydd Sadwrn 11 o Fawrth fe euthum i Ben-lan ger Abertawe i gymryd rhan ym Mhencampwriaeth nofio Gorllewin Cymru. Roedd 69 yn cystadlu yn y ras gefn. Enillais y drydedd wobr a chafodd y tîm ras gyfnewid ail wobr mewn tair cystadleuaeth.

Bum yn cystadlu hefyd yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid ar yr 4ydd o Ebrill a chefais y drydedd wobr am ganu.

Profiad cyffrous oedd canu dwy gân yng nghyngerdd yr Urdd i gasglu arian i'r Urdd. Roedd y cyngerdd yn y Neuadd Fawr ac roedd llawer o bobl yn gwylio. Roeddwn i'n nerfus i ddechrau ond wnes i fwynhau'r profiad yn fawr a hoffwn ddiolch i Miss Davies am gyfeilio i mi!

gan Caryl Daker

Rygbi

Cawsom ein dau y cyfle i chwarae rygbi dros Aberystwyth yng Nghaerdydd mewn twrnament yn ddiweddar. Roedd yn brofiad arbennig a chyfle i gyfarfod chwaraewyr o wahanol rannau o Gymru. Fe wnaethom joio mas draw.

gan
Llyr James a Leigh Jenkins